



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Dolen gyswllt: Marc Jones - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (01443 424102)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o PANEL YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD / YMDDISWYDDO yn cael ei gynnal yn Bloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX ar DYDD IAU, 13EG RHAGFYR, 2018 am 2.30 PM.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod diwethaf y Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo a gafodd ei gynnal ar 13 Rhagfyr 2018

3 - 4

3. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd

allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

4. CEISIADAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD / YMDDISWYDDO

Trafod adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig **(i ddilyn)**

5. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

Cylchreliad:-

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Y Cynghorydd W Treeby a Y Cynghorydd M Webber – Cadeirydd ac Is-gadeirydd, yn y drefn honno

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:

Y Cynghorydd M Weaver, Y Cynghorydd J Bonetto and Y Cynghorydd M Powell